# Ymgynghoriad ar gynnig i wneud newidiadau i amodau trwydded

Ymgynghoriad ar gynnig i wneud newidiadau i'r amodau sydd wedi'u cynnwys mewn trwyddedau Gwasanaethau Ychwanegol Teledu Digidol

**Ymgynghoriad**

Cyhoeddwyd 21 Chwefror 2024
Dyddiad olaf ar gyfer derbyn ymatebion: 17 Ebrill 2024

# Cynnwys

## Adran


1. Trosolwg ..... 3
2. Newidiadau a gynigir ..... 4

A1 Amodau arfaethedig ar gyfer trwyddedau ..... 9

A2 Ymateb i'r ymgynghoriad hwn ..... 12

A3 Egwyddorion Ofcom ar gyfer ymgynghori ..... 15

A4 Dalen gyflwyno'r ymgynghoriad ..... 16

A5 Cwestiynau'r ymgynghoriad ..... 18

# 1. Trosolwg

1.1 Mae'r ymgynghoriad hwn yn nodi'r newidiadau y mae Ofcom yn cynnig eu gwneud i'r amodau sydd wedi'u cynnwys mewn trwyddedau Gwasanaethau Ychwanegol Teledu Digidol ('DTAS'). Mae'r gwasanaethau hyn yn darlledu ar amlblecsau teledu daearol digidol ac fel arfer yn cynnwys gwasanaethau testun neu ddata.

1.2 Byddai rhai o'r amodau presennol sydd wedi'u cynnwys mewn trwyddedau Gwasanaethau Ychwanegol Teledu Digidol yn elwa o gael eu diweddaru. Mae hyn yn rhannol oherwydd y cynnydd diweddar mewn gwasanaethau sy'n cael eu darparu ar y rhyngrwyd sydd ar gael i wylwyr yn y DU, lle mae defnyddio amodau presennol y drwydded yn arwain at ganlyniad a allai fod yn ddryslyd i wylwyr. Mae rhai newidiadau gweinyddol yr hoffem eu cyflwyno hefyd.

1.3 Mae adran 3(4)(b) o Ddeddf Darlledu 1990 ('Deddf 1990') yn caniatáu i Ofcom wneud newidiadau i amodau trwyddedau darlledu a chynnwys amodau newydd, drwy amrywio'r trwyddedau, ar yr amod bod y trwyddedeion wedi cael cyfle rhesymol i gyflwyno sylwadau am y cynnig i wneud newidiadau. Mae'r ymgynghoriad hwn yn rhoi cyfle i drwyddedeion wneud hynny.

**Beth rydym yn ei gynnig – yn gryno**

- Diwygio'r amod trwydded 'gwasanaethau cynnwys trydydd parti' i nodi nad oes angen rhybudd os yw'r gwasanaeth teledu trydydd parti y mae'r trwyddedai'n rhoi mynediad iddo yn dal trwydded ddarlledu a gyhoeddwyd gan Ofcom.
- Ychwanegu amodau trwydded 'gwasanaethau cynnwys trydydd parti' a 'gwasanaethau cynnwys a waherddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol' i bob trwydded Gwasanaethau Ychwanegol Teledu Digidol fel bod pob un o'r trwyddedau hynny, lle bo'n bosibl, yn cynnwys yr un amodau.
- Newid cyfeiriad yr amod trwydded 'force majeure' o 'Y Frenhines' i 'Y Brenin'.

## Y camau nesaf

1.4 Rydym yn gwahodd sylwadau ar y cynnig i wneud newidiadau erbyn **5pm ar 17 Ebrill 2024**.

1.5 Yn amodol ar ystyried yr ymatebion a gawn, byddwn yn cyflwyno hysbysiad o'r newidiadau i drwyddedau ar gyfer pawb sydd â thrwydded Gwasanaethau Ychwanegol Teledu Digidol ar hyn o bryd; gan amrywio'r trwyddedau i wneud y newidiadau rydym yn eu cynnig yn yr ymgynghoriad hwn. Byddwn hefyd yn diweddaru templed trwydded Gwasanaethau Ychwanegol Teledu Digidol gyda'r newidiadau rydym yn eu cynnig er mwyn i unrhyw drwyddedau Gwasanaethau Ychwanegol Teledu Digidol newydd y byddwn yn eu rhoi gael eu cyhoeddi gan ddefnyddio'r templed trwydded newydd.

# 2. Newidiadau a gynigir

## Cefndir

2.1 O dan adran 4(1)(a) o Ddeddf Darlledu 1990 (‘Deddf 1990’), mae gan Ofcom ddyletswydd i gynnwys yn nhrwydded pob darlledwr yr amodau sy’n briodol yn ein barn ni i’n galluogi i gyflawni ein dyletswyddau (ac unrhyw ddyletswyddau a osodir ar ddeiliaid trwydded) o dan Ddeddf 1990, Deddf Darlledu 1996 (Deddf 1996) neu Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 (‘Deddf 2003’).

2.2 Mae’r rhain yn cynnwys dyletswyddau Ofcom i sicrhau'r canlynol:

a) bod ystod eang o wasanaethau teledu a radio ar gael ledled y DU sydd (wrth eu hystyried gyda’i gilydd) o ansawdd uchel ac wedi’u cynllunio i apelio at amrywiaeth o chwaethau a diddordebau;
b) yn achos pob gwasanaeth teledu a radio, bod safonau ar waith sy'n darparu amddiffyniad ddigonol i aelodau'r cyhoedd rhag bod deunydd sarhaus a niweidiol yn cael ei gynnwys mewn gwasanaethau o'r fath; a
c) bod safonau ar waith, ar gyfer pob gwasanaeth teledu a radio, sy’n rhoi digon o amddiffyniad i aelodau’r cyhoedd a phob unigolyn arall rhag cael eu trin yn annheg mewn rhaglenni sydd wedi’u cynnwys mewn gwasanaethau o’r fath neu dorri ar breifatrwydd yn ddiangen sy’n deillio o weithgareddau sy’n cael eu gwneud ar gyfer gwasanaethau o’r fath.

2.3 O dan adran 211 o Ddeddf 2003, mae gan Ofcom ddyletswydd i reoleiddio rhai gwasanaethau teledu. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau ychwanegol teledu digidol, y math o drwydded sy’n destun yr ymgynghoriad hwn.

2.4 Byddai rhai o’r amodau presennol sydd wedi’u cynnwys mewn trwyddedau darlledu Gwasanaethau Ychwanegol Teledu Digidol yn elwa o gael eu diweddaru. Mae hyn yn rhannol oherwydd y cynnydd diweddar mewn gwasanaethau sy’n cael eu darparu ar y rhyngrwyd sydd ar gael i wylwyr yn y DU, lle mae defnyddio amodau presennol y drwydded yn arwain at ganlyniad a allai fod yn ddryslyd i wylwyr. Mae rhai newidiadau gweinyddol yr hoffem eu cyflwyno hefyd. Mae’r adran hon o’r ymgynghoriad yn nodi’r newidiadau rydym yn cynnig eu gwneud.

2.5 Mae adran 3(4)(b) o Ddeddf 1990 yn caniatáu i Ofcom wneud newidiadau i amodau trwyddedau darlledu, a chynnwys amodau newydd, drwy amrywio’r trwyddedau, ar yr amod bod y trwyddedeion wedi cael cyfle rhesymol i gyflwyno sylwadau am y cynnig i wneud newidiadau. Mae’r ymgynghoriad hwn yn rhoi cyfle i drwyddedeion wneud hynny.

## Beth yw Gwasanaethau Ychwanegol Teledu Digidol?

2.6 Mae Gwasanaethau Ychwanegol Teledu Digidol yn wasanaethau sy’n cael eu darlledu ar amlblecs teledu daearol digidol. Mae teledu daearol digidol yn cael ei adnabod yn gyffredin fel Freeview, ac mae amlblecs yn ffordd o ddarlledu nifer o wasanaethau teledu, radio a data gan ddefnyddio signal digidol.

2.7 Nodir y diffiniad o Wasanaeth Ychwanegol Teledu Digidol yn adran 24 o Ddeddf 1996. Maent yn wasanaethau sydd fel arfer yn cynnwys gwasanaethau testun neu ddata. Er enghraifft,

defnyddir Gwasanaethau Ychwanegol Teledu Digidol i ddarlledu meddalwedd sy'n galluogi gwyliwr sy'n gwylio teledu sydd wedi'i gysylltu â'r rhyngrwyd i gysylltu â'r rhyngrwyd a gwylio sianeli teledu a ddarperir ar y rhyngrwyd, sydd fel arfer yn cael eu darparu gan drydydd partïon, fel y meddalwedd sy'n mynd â gwylwyr i wasanaethau fel Channelbox a Vision o Amserlen Rhaglenni Electronig ('EPG') Freeview. Yn yr enghraifft hon, y Gwasanaethau Ychwanegol Teledu Digidol yw'r meddalwedd sy'n rhan o'r ffrwd ddarlledu teledu daearol digidol ac sy'n gweithredu fel y cyswllt rhwng y teledu daearol digidol a'r rhyngrwyd, nid y sianeli teledu a ddarperir ar y rhyngrwyd. Weithiau, cyfeirir at y mathau hyn o Wasanaethau Ychwanegol Teledu Digidol fel gwasanaethau 'porth'.

## Pa drwyddedau mae Ofcom yn eu cyhoeddi?

2.8 Mae Ofcom yn cyhoeddi trwyddedau Gwasanaethau Ychwanegol Teledu Digidol, ac rydym wedi cyhoeddi dau dempled ar ein gwefan. Mae gwasanaethau trwyddedig Gwasanaethau Ychwanegol Teledu Digidol yn wasanaethau testun neu ddata sy'n cael eu darlledu, fel y meddalwedd yn yr enghraifft a roddir uchod.

2.9 Mae Ofcom hefyd yn cyhoeddi trwyddedau ar gyfer gwasanaethau sy'n darlledu rhaglenni teledu. Bydd y gwasanaethau teledu hyn yn gofyn am drwydded Gwasanaeth Rhaglenni Teledu Digidol (DTPS) os ydynt yn cael eu darlledu ar deledu daearol digidol, a thrwydded Gwasanaeth Cynnwys Trwyddedadwy Teledu (TLCS) os ydynt yn cael eu darlledu gan ddefnyddio lloeren neu gebl.

2.10 Bydd gan wasanaethau teledu sy'n cael eu darparu dros y rhyngrwyd drwydded Gwasanaeth Cynnwys Trwyddedadwy Teledu os oes modd cael gafael ar y gwasanaeth drwy amserlen rhaglenni electronig sy'n cael ei rheoleiddio yn y DU. Nid oes angen trwydded Gwasanaeth Cynnwys Trwyddedadwy Teledu ar wasanaethau teledu sy'n cael eu darparu ar y rhyngrwyd drwy ddewislen ar borth.

## Beth rydym yn bwriadu ei newid?

### Pryd mae angen dangos rhybudd

2.11 Rydym yn gweld mwy a mwy o wasanaethau teledu sy'n cael eu darparu ar y rhyngrwyd i wylwyr yn y DU. Mae rhai o'r gwasanaethau hyn ar gael drwy deledu daearol digidol, lle mae gwasanaeth sy'n dal trwydded Gwasanaethau Ychwanegol Teledu Digidol yn darlledu meddalwedd sy'n mynd â'r gwyliwr o deledu daearol digidol i'r gwasanaeth teledu a ddarperir ar y rhyngrwyd. Os oes modd cael mynediad at y gwasanaeth teledu sy'n cael ei ddarparu ar y rhyngrwyd drwy gyfrwng amserlen rhaglenni electronig sy'n cael ei rheoleiddio, er enghraifft mae ganddo ei rif sianel ei hun, yna bydd gan ddarparwr y meddalwedd drwydded Gwasanaethau Ychwanegol Teledu Digidol, a bydd gan ddarparwr y gwasanaeth teledu drwydded Gwasanaeth Cynnwys Trwyddedadwy Teledu.

2.12 Un o amodau trwyddedau Gwasanaethau Ychwanegol Teledu Digidol sy'n rhoi mynediad at wasanaethau teledu trydydd parti yw bod rhaid iddynt ddangos rhybudd sy'n rhoi gwybod i'r gwylwyr eu bod ar fin gweld deunydd sy'n cael ei ddarparu dros y rhyngrwyd, nad yw efallai'n cael ei reoleiddio yn yr un ffordd â gwasanaethau teledu eraill, a chynghori'r gwylwyr i fod yn ofalus. Mae hyn yn cael ei gofnodi yn amod trwydded 22A 'gwasanaethau cynnwys trydydd parti'. Mae gofyniad yr amod trwydded hwn yn un o'r ffyrdd y mae Ofcom yn diogelu cynulleidfaoedd rhag cynnwys a allai fod yn niweidiol.

2.13 Mae'r amod trwydded yn nodi nad oes angen dangos rhybudd os yw'r gwasanaeth o fewn awdurdodaeth Aelod-wladwriaeth yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, ac sydd felly'n cael ei reoleiddio ganddi. Y rheswm pam y ceir eithriad ar gyfer gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio mewn mannau eraill yn Ewrop yw oherwydd bod safonau sylfaenol a rennir ar gyfer cynnwys teledu ledled Ewrop a'r DU. Mae'r safonau sylfaenol hyn a rennir yn gweithredu i ddiogelu gwylwyr rhag niwed posib.

2.14 Nid yw'r DU yn un o Aelod-wladwriaethau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd mwyach, ac felly mae geiriad presennol yr amod trwydded yn golygu bod rhaid dangos rhybudd hyd yn oed os yw'r gwasanaeth teledu wedi'i drwyddedu gan Ofcom ac felly'n ddarostyngedig i'n rheolau cynhwysfawr o ran safonau'r cynnwys. Rydym yn cydnabod y gallai fod yn ddryslyd i wylwyr weld neges yn eu rhybuddio na fydd y gwasanaeth maen nhw ar fin ei weld yn cael ei reoleiddio yn yr un ffordd â gwasanaethau teledu eraill, pan mae'r gwasanaeth mewn gwirionedd yn cael ei drwyddedu gan Ofcom ac felly'n cael ei reoleiddio yn yr un ffordd â gwasanaethau trwyddedig eraill Ofcom. Rydym hefyd yn nodi y gallai fod yn rhwystredig i'r darparwyr gwasanaethau teledu, gan y gallai gwyliwr ddewis peidio â gwylio eu gwasanaeth o ganlyniad i'r rhybudd, er bod y gwasanaeth hwnnw'n ddarostyngedig i'r un rheolau â gwasanaethau eraill a drwyddedir gan Ofcom nad oes angen iddynt ddangos rhybudd.

2.15 Gan ein bod bellach yn gweld gwasanaethau teledu sy'n cael eu darparu ar y rhyngrwyd yn ymddangos ar Amserlenni Rhaglenni Electronig sy'n cael eu rheoleiddio ac yn dal trwyddedau Gwasanaeth Cynnwys Trwyddedadwy Teledu, rydym o'r farn ei bod yn amser priodol i ddiweddaru yr amod trwydded 'gwasanaethau cynnwys trydydd parti' fel nad oes angen dangos rhybudd, yn ogystal â'r eithriadau presennol, os yw'r gwasanaeth teledu yn dal trwydded ddarlledu a gyhoeddwyd gan Ofcom. Effaith y cynnig hwn yw y bydd llai o achlysuron lle mae angen arddangos rhybudd. Mae amod llawn y drwydded wedi'i nodi yn Atodiad 1, gyda'r testun rydym yn bwriadu ei ddileu ~~gyda llinell drwyddo~~ a'r ychwanegiad arfaethedig mewn **print trwm**.

> **Cwestiwn 1 yr Ymgynghoriad:**
>
> A oes gennych unrhyw sylwadau ar gynnig Ofcom i wneud newidiadau i'r amod trwydded 'gwasanaethau cynnwys trydydd parti' i nodi nad oes angen dangos rhybudd os yw'r gwasanaeth teledu trydydd parti sy'n cael ei ddefnyddio yn dal trwydded ddarlledu a gyhoeddwyd gan Ofcom?

## Ychwanegu amodau 22A a 22B at holl drwyddedau Gwasanaethau Ychwanegol Teledu Digidol

2.16 Darperir gwahanol fathau o wasanaethau testun a data dan drwyddedau Gwasanaethau Ychwanegol Teledu Digidol. Er enghraifft, mae rhai Gwasanaethau Ychwanegol Teledu Digidol trwyddedig yn rhaglenni sy'n caniatáu i'r gwyliwr gael gafael ar gynnwys arall, mae rhai yn Amserlenni Rhaglenni Electronig, ac mae eraill yn fathau eraill o feddalwedd. O ganlyniad, mae Ofcom wedi cyhoeddi gwahanol drwyddedau Gwasanaethau Ychwanegol Teledu Digidol gydag amrywiadau bach yn yr amodau sydd ynddynt, yn dibynnu ar union natur y gwasanaeth trwyddedig. Yn gyffredinol, mae trwyddedau ar gyfer gwasanaethau sy'n rhoi mynediad at wasanaethau teledu trydydd parti yn cynnwys amodau trwydded ychwanegol – amod 22A 'gwasanaethau cynnwys trydydd parti' ac amod 22B 'gwasanaethau cynnwys a waherddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol' – ond mae amrywiadau ar draws templedi'r drwydded.

2.17 Er mwyn sicrhau dull gweithredu cyson ar gyfer trwyddedeion Gwasanaethau Ychwanegol Teledu Digidol, ac am resymau gweinyddol, rydym yn cynnig ychwanegu amodau trwydded 22A a 22B at bob trwydded Gwasanaethau Ychwanegol Teledu Digidol fel y bydd pawb sydd â thrwydded Gwasanaethau Ychwanegol Teledu Digidol, cyn belled ag y bo modd, yn dal trwyddedau sy’n cynnwys yr un amodau. Mae adran 24A o Ddeddf 1996 yn mynnu bod Ofcom yn gwneud popeth y mae’n ei ystyried yn briodol i atal gwasanaethau ychwanegol digidol rhag galluogi aelodau o’r cyhoedd i gael gafael ar “ddeunydd diangen a niweidiol difrifol”. Mae deunydd diangen a niweidiol difrifol yn golygu deunydd nad yw wedi’i gynnwys yn y Gwasanaethau Ychwanegol Teledu Digidol ac mae’n ymddangos i Ofcom (i) fod ganddo’r potensial i achosi niwed difrifol, neu (ii) ei fod yn debygol o annog neu gymell troseddu neu arwain at anhrefn. Mae amodau trwyddedau 22A a 22B yn gweithredu i roi gwybod i Ofcom am y gwasanaethau y mae trwyddedeion Gwasanaethau Ychwanegol Teledu Digidol yn galluogi mynediad iddynt ac yn ei gwneud yn ofynnol i drwyddedeion gymryd camau penodol os bydd deunydd niweidiol difrifol yn dod ar gael i’r cyhoedd.

2.18 Dim ond i’r graddau y mae’r gwasanaeth trwyddedig yn darparu mynediad at wasanaethau cynnwys trydydd parti y bydd yr amodau hyn yn berthnasol. Mae amodau’r drwydded 22A a 22B wedi’u nodi yn Atodiad 1.

**Cwestiwn 2 yr Ymgynghoriad:**

Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar gynnig Ofcom i wneud newidiadau i ychwanegu amodau 22A a 22B at bob trwydded Gwasanaethau Ychwanegol Teledu Digidol?

## Diweddaru amod force majeure y drwydded

2.19 Mae amod ‘force majeure’ wedi’i gynnwys ym mhob trwydded Gwasanaethau Ychwanegol Teledu Digidol. Mae hyn yn darparu nad yw deiliad y drwydded yn gyfrifol am unrhyw achos o dorri amod trwydded sy’n digwydd oherwydd amgylchiadau sydd y tu hwnt i’w reolaeth resymol. Mae’r amod yn cynnwys cyfeiriad at “*elynion y Frenhines*”, ac rydym yn cynnig manteisio ar y cyfle hwn i’w ddiweddaru i “*elynion y Brenin*”. Mae amod llawn y drwydded wedi’i nodi yn Atodiad 1, gyda’r testun rydym yn bwriadu ei ddileu ~~gyda llinell drwyddo~~ a’r ychwanegiad arfaethedig mewn **print trwm**.

**Cwestiwn 3 yr Ymgynghoriad:**

Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar gynnig Ofcom i wneud newidiadau i amod ‘force majeure’ y drwydded?

# Y camau nesaf

2.20 Rydym yn gwahodd sylwadau ar y cynnig i wneud newidiadau erbyn **5pm ar 17 Ebrill 2024**.

2.21 Yn amodol ar ystyried yr ymatebion a gawn, byddwn yn cyflwyno hysbysiad o’r newidiadau i’r trwyddedau i bob trwyddedai Gwasanaethau Ychwanegol Teledu Digidol presennol; gan amrywio’r trwyddedau i wneud y newidiadau rydym yn eu cynnig yn yr ymgynghoriad hwn. Byddwn hefyd yn diweddaru templed trwydded Gwasanaethau Ychwanegol Teledu Digidol gyda’r newidiadau rydym yn eu cynnig er mwyn i unrhyw drwyddedau Gwasanaethau

Ychwanegol Teledu Digidol newydd y byddwn yn eu rhoi gael eu cyhoeddi gan ddefnyddio'r templed trwydded newydd.

# A1 Amodau arfaethedig ar gyfer trwyddedau

A1.1 Rydym yn cynnig cynnwys amodau 22A a 22B yn y ffurf a nodir isod ym mhob trwydded Gwasanaethau Ychwanegol Teledu Digidol. Rydym hefyd yn cynnig gwneud rhai newidiadau i eiriad amod 22A ac i amod 23. Mae'r newidiadau rydym yn eu cynnig wedi'u nodi isod, gyda'r testun rydym yn bwriadu ei ddileu ~~gyda llinell drwyddo~~ a'r ychwanegiad arfaethedig mewn **print trwm**.

A1.2 Ar y dudalen we ar gyfer yr ymgynghoriad hwn, rydym hefyd wedi cyhoeddi templed llawn y drwydded Gwasanaethau Ychwanegol Teledu Digidol rydym yn ei gynnig. Caiff ychwanegiadau newydd eu cyflwyno **mewn print trwm ac wedi'i amlygu**, a bydd unrhyw eiriad rydym yn bwriadu ei ddileu ~~gyda llinell drwyddo~~.

***22A. Gwasanaethau cynnwys trydydd parti***

(1) Ni chaiff y Trwyddedai ymrwymo i gytundeb ag unrhyw berson sy'n darparu mynediad, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, at wasanaeth cynnwys sydd â deunydd sy'n cyfateb i sgôr R-18 Bwrdd Dosbarthu Ffilmiau Prydain, deunydd sy'n cynnwys "deunydd rhyw ar gyfer oedolion" fel y'i diffinnir yn y Cod Safonau, neu ddeunydd sy'n hysbysebu gwasanaethau adloniant rhywiol sy'n seiliedig ar delegyfathrebu fel y'u diffinnir yng Nghod y DU ar Ddarlledu Hysbysebion ("sgwrsio am ryw i oedolion"), ac eithrio fel y darperir ym mharagraffau (2) a (3) isod.

(2) Dim ond pan fo'r gwasanaeth hwnnw wedi'i drwyddedu gan Ofcom neu Aelod-wladwriaeth ~~arall~~ o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd y caiff y Trwyddedai ymrwymo i gytundeb â pherson sy'n darparu mynediad, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, i wasanaeth cynnwys llinol sydd â "deunydd rhyw ar gyfer oedolion".

(3) Dim ond pan fydd y gwasanaeth hwnnw wedi'i drwyddedu gan Ofcom neu Aelod-wladwriaeth ~~arall~~ o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd y caiff y Trwyddedai ymrwymo i gytundeb â pherson sy'n darparu mynediad, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, at wasanaeth cynnwys llinol sydd â deunydd ar gyfer "sgwrsio am ryw i oedolion".

(4) Cyfeirir at y deunydd ym mharagraffau (2) a (3) fel y "deunydd ar gyfer oedolion sy'n cael ei reoleiddio".

(5) Ni fydd y Trwyddedai yn galluogi mynediad, yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol, at wasanaeth cynnwys sy'n cynnwys deunydd a allai achosi niwed difrifol, neu sy'n debygol o annog neu gymell troseddu neu arwain at anhrefn.[1]

[1] Ar hyn o bryd, nid yw Amod 22A mewn rhai trwyddedau Gwasanaethau Ychwanegol Teledu Digidol yn cynnwys yr is-amod hwn.

(6) Os daw'r Trwyddedai'n ymwybodol bod gwasanaeth cynnwys sy'n dangos (a) deunydd sy'n cyfateb i sgôr R-18 Bwrdd Dosbarthu Ffilmiau Prydain neu fel arall yn gyfystyr â "deunydd rhyw ar gyfer oedolion" neu ddeunydd ar gyfer "sgwrsio am ryw i oedolion", nad yw'n ddeunydd ar gyfer oedolion sy'n cael ei reoleiddio, neu (b) ddeunydd sydd â'r potensial i achosi niwed difrifol, neu sy'n debygol o annog neu gymell troseddu neu arwain at anhrefn, y gellir cael mynediad iddo drwy'r Gwasanaeth Trwyddedig, bydd yn gwneud popeth o fewn ei allu i sicrhau nad yw'r gwasanaeth cynnwys ar gael drwy'r Gwasanaeth Trwyddedig fel mater o frys.

(7) Yn amodol ar Amod 22A(1), pan fydd gan y Trwyddedai gytundeb â darparwr neu ddarparwyr cynnwys i alluogi mynediad at eu gwasanaeth(au) cynnwys drwy'r Gwasanaeth Trwyddedig, bydd y Trwyddedai'n dangos, mewn lle amlwg ac am gyfnod o bum eiliad o leiaf, sgrin rybuddio bob tro cyn i'r gwyliwr g mynediad at y gwasanaeth(au) cynnwys a nodir yn (8) isod. Rhaid i'r sgrin rybuddio hon roi gwybod i'r gwyliwr ei fod ar fin gweld deunydd sy'n cael ei ddarparu dros y rhyngrwyd, nad yw efallai'n cael ei reoleiddio yn yr un ffordd â chynnwys teledu, a chynghori'r gwyliwr i fod yn ofalus. Rhaid darparu sgrinlun o'r testun rhybudd ar y sgrin i Ofcom ei gymeradwyo o leiaf 10 diwrnod gwaith cyn ei ddefnyddio am y tro cyntaf. Efallai y bydd Ofcom yn mynnu bod y testun rhybudd yn cael ei amrywio, gan gynnwys er mwyn iddo roi manylion cyfeiriad gwefan i gael rhagor o wybodaeth, a fydd yn cael ei hysbysu i'r Trwyddedai o bryd i'w gilydd.

(8) Mae amod 22A(7) yn berthnasol pan fydd y gwasanaeth cynnwys y gellir cael mynediad iddo drwy'r Gwasanaeth Trwyddedig (neu o leiaf un o'r gwasanaethau cynnwys y gellir cael mynediad iddo lle mae darparwr yn darparu mwy nag un):

(a) **heb ei drwyddedu gan Ofcom, ac** y tu allan i awdurdodaeth Aelod-wladwriaeth yr Ardal Economaidd Ewropeaidd at ddibenion y Gyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol ac felly nid yw'n cael ei reoleiddio gan unrhyw Aelod-wladwriaeth o'r fath; neu

(b) yn wasanaeth rhaglenni ar-alw, fel y'i diffinnir yn y Ddeddf Cyfathrebiadau, nad yw Ofcom wedi cael gwybod amdano.

### *22B. Gwasanaethau cynnwys a waherddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol*

(1) Ni fydd y Trwyddedai'n ymrwymo i gytundeb gydag unrhyw berson sy'n darparu mynediad, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, at wasanaeth cynnwys sydd wedi'i wahardd gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

(2) Os daw'r Trwyddedai'n ymwybodol bod gwasanaeth cynnwys sy'n cael ei wahardd gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn hygyrch drwy'r Gwasanaeth Trwyddedig, bydd yn gwneud popeth o fewn ei allu i sicrhau nad yw'r gwasanaeth cynnwys ar gael drwy'r Gwasanaeth Trwyddedig fel mater o frys.

### *23. Force majeure*

*Adran 4(1)(d) o Ddeddf 1996*

Ni fydd y Trwyddedai yn gyfrifol mewn unrhyw ffordd am fethiant i gydymffurfio ag unrhyw Amodau o'r Drwydded hon a achosir gan neu sy'n deillio yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o unrhyw amgylchiadau sydd y tu hwnt i reolaeth resymol y Trwyddedai, gan gynnwys (heb gyfyngiad) rhyfel, difrod gan elynion ~~y Frenhines~~ **y Brenin**, terfysgaeth, terfysg, gwrthryfel, helynt sifil, ymyrraeth gan streiciau, cyflogwr yn cau gweithle, protest mewn adeilad, picedu neu anghydfod diwydiannol neu weithredu diwydiannol arall.

# A2 Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

## Sut mae ymateb

A2.1 Byddai Ofcom yn hoffi i chi gyflwyno eich safbwyntiau a'ch sylwadau ynghylch y materion sydd wedi'u nodi yn y ddogfen hon erbyn 5pm ar 17 Ebrill 2024.

A2.2 Gallwch lwytho ffurflen ymateb i lawr yn Ymgynghoriad: Gynnig i wneud newidiadau i'r amodau sydd wedi'u cynnwys mewn trwyddedau Gwasanaethau Ychwanegol Teledu Digidol. Gallwch ddychwelyd y ffurflen dros e-bost neu drwy'r post i'r cyfeiriad sydd ar y ffurflen ymateb.

A2.3 Os yw eich ymateb yn ffeil fawr, neu os yw'n cynnwys siartiau, tablau neu ddata ategol eraill, a fyddech chi cystal â'i anfon dros e-bost at DTASlicenceconditionchanges@ofcom.org.uk, fel atodiad mewn fformat Microsoft Word, ynghyd â'r ddalen gyflwyno. At ddibenion yr ymgynghoriad hwn yn unig y mae'r cyfeiriad e-bost hwn, ac ni fydd yn gweithio ar ôl 17 Ebrill 2024.

A2.4 Fel arall, gellir postio ymatebion i'r cyfeiriad isod, gan farcio teitl yr ymgynghoriad arnynt:

Ymgynghoriad ar y cynnig i wneud newidiadau i amodau'r drwydded
Tîm Trwyddedau Darlledu
Ofcom
Riverside House
2A Southwark Bridge Road
Llundain SE1 9HA

A2.5 Mae croeso i chi gyflwyno ymatebion mewn fformatau eraill heblaw mewn print, er enghraifft recordiad sain neu fideo mewn Iaith Arwyddion Prydain. I ymateb drwy ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain:

- anfonwch recordiad ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu eich ymateb. Ni ddylai'r recordiad fod yn fwy na 5 munud. Dyma'r fformatau ffeil addas: ffeiliau DVD, wmv neu QuickTime; neu
- gwnewch fideo ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu'ch ymateb, a'i lwytho yn syth i YouTube (neu safle cynnal arall), ac anfon y ddolen atom ni.

A2.6 Byddwn yn cyhoeddi trawsgrifiad o unrhyw ymatebion sain neu fideo a gawn (oni bai fod eich ymateb yn gyfrinachol)

A2.7 Nid oes angen i ni gael copi papur o'ch ymateb yn ogystal â fersiwn electronig. Byddwn yn cydnabod ein bod wedi derbyn ymateb a gyflwynir i ni dros e-bost.

A2.8 Nid oes rhaid i chi ateb pob cwestiwn yn yr ymgynghoriad os nad oes gennych chi safbwynt; mae ymateb byr ar ddim ond un pwynt yn iawn. Rydym hefyd yn croesawu ymatebion ar y cyd.

A2.9 Byddai'n ddefnyddiol petai hi'n bosib i'ch ymateb gynnwys atebion uniongyrchol i'r cwestiynau sy'n cael eu gofyn yn y ddogfen ymgynghori. Mae'r cwestiynau wedi cael eu rhestru yn Atodiad X. Byddai'n ddefnyddiol hefyd petai hi'n bosib i chi egluro pam rydych yn arddel eich safbwyntiau, a beth rydych chi'n ei gredu fyddai effaith cynigion Ofcom.

A2.10 Os hoffech chi drafod y materion a'r cwestiynau sydd wedi cael eu nodi yn yr ymgynghoriad hwn, gadewch neges ar gyfer y Tîm Trwyddedu Darlledu ar 0207 981 3002 a bydd y tîm yn eich ffonio'n ôl, neu drwy anfon e-bost at DTASlicenceconditionchanges@ofcom.org.uk.

## Cyfrinachedd

A2.11 Mae ymgynghoriadau'n fwy effeithiol os ydym yn cyhoeddi'r ymatebion cyn i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben. Gall hyn fod o gymorth i bobl a sefydliadau sy'n brin eu hadnoddau neu sydd ddim yn gyfarwydd iawn â'r materion dan sylw i ymateb yn fwy gwybodus. Felly, er mwyn bod yn dryloyw a sicrhau ymarfer rheoleiddio da, ac oherwydd ein bod ni'n credu ei bod yn bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau ymatebwyr eraill, fel rheol byddwn yn cyhoeddi ymatebion ar wefan Ofcom yn rheolaidd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben.

A2.12 Os ydych chi'n meddwl y dylid cadw eich ymateb yn gyfrinachol, a fyddech chi cystal â nodi i ba ran(nau) mae hyn yn berthnasol, ac egluro pam. Anfonwch unrhyw adrannau cyfrinachol fel atodiad ar wahân. Os ydych am i'ch enw, eich cyfeiriad, manylion cyswllt eraill, neu deitl eich swydd aros yn gyfrinachol, rhowch y manylion hynny ar y ddalen gyflwyno'n unig, fel na fydd rhaid i ni olygu eich ymateb.

A2.13 Os bydd rhywun yn gofyn i ni gadw ymateb cyfan neu ran ohono yn gyfrinachol, byddwn yn trin y cais hwn o ddifri ac yn ceisio ei barchu. Ond weithiau bydd angen i ni gyhoeddi pob ymateb, gan gynnwys y rhai sydd wedi eu nodi'n rhai cyfrinachol, er mwyn bodloni rhwymedigaethau cyfreithiol.

A2.14 Er mwyn cyflawni ein dyletswydd cyn datgelu, efallai y byddwn yn rhannu copi o'ch ymateb ag adran berthnasol yn y llywodraeth cyn i ni ei gyhoeddi ar ein gwefan.

A2.15 Sylwch hefyd y cymerir bod yr hawlfraint a phob eiddo deallusol arall sydd mewn ymatebion wedi'u rhoi o dan drwydded i Ofcom eu defnyddio. Mae hawliau eiddo deallusol Ofcom yn cael eu hegluro ymhellach yn ein Telerau Defnyddio.

## Y camau nesaf

A2.16 Ar ôl y cyfnod ymgynghori hwn, mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi datganiad yng Ngwanwyn 2024.

A2.17 Gallwch chi gofrestru i gael diweddariadau post yn rhoi gwybod i chi am gyhoeddiadau newydd Ofcom os ydych yn dymuno hynny.

## Prosesau ymgynghori Ofcom

A2.18 Mae Ofcom yn ceisio sicrhau ei bod mor hawdd â phosibl ymateb i ymgynghoriad. I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar ein hegwyddorion ymgynghori yn Atodiad 3.

A2.19 Os oes gennych chi unrhyw sylwadau neu awgrymiadau am y modd rydym yn rheoli ein hymgynghoriadau, anfonwch neges e-bost atom yn consult@ofcom.org.uk. Rydym yn arbennig o falch o gael syniadau ynghylch sut gallai Ofcom fod yn fwy effeithiol wrth ofyn am farn grwpiau neu unigolion, fel busnesau bach a defnyddwyr preswyl, sy'n llai tebygol o roi eu barn drwy ymgynghoriad ffurfiol.

A2.20 Os hoffech drafod y materion hyn, neu brosesau ymgynghori Ofcom yn gyffredinol, cysylltwch ag ysgrifennydd y gorfforaeth:

A2.21 Corporation Secretary
Ofcom
Riverside House
2a Southwark Bridge Road
Llundain SE1 9HA
E-bost: corporationsecretary@ofcom.org.uk

# A3 Egwyddorion Ofcom ar gyfer ymgynghori

Mae Ofcom yn dilyn saith egwyddor ar gyfer pob ymgynghoriad ysgrifenedig cyhoeddus:

## Cyn yr ymgynghoriad

A3.1 Os oes modd, byddwn yn cynnal sgyrsiau anffurfiol gyda phobl a chyrff cyn cyhoeddi ymgynghoriad mawr i gael gwybod a ydym yn meddwl yn y cyfeiriad iawn. Os nad oes gennym ddigon o amser i wneud hyn, byddwn yn cynnal cyfarfod agored i egluro ein cynigion yn fuan ar ôl cyhoeddi'r ymgynghoriad.

## Yn ystod yr ymgynghoriad

A3.2 Byddwn yn glir ynghylch pwy rydym yn ymgynghori â nhw, pam, ar ba gwestiynau ac am ba hyd.

A3.3 Byddwn yn gwneud y ddogfen ymgynghori'n un mor fyr ac mor syml ag y bo modd gyda throsolwg o ddim mwy na dwy dudalen. Byddwn yn ceisio ei gwneud mor hawdd â phosibl i bobl roi ymateb ysgrifenedig i ni.

A3.4 Byddwn yn ymgynghori am gyfnod o hyd at ddeg wythnos yn dibynnu ar effaith bosibl ein cynigion.

A3.5 Bydd rhywun yn Ofcom yn gyfrifol am sicrhau ein bod yn dilyn ein canllawiau ein hunain ac yn ceisio cyrraedd y nifer fwyaf o bobl a sefydliadau sydd â diddordeb o bosibl yng nghanlyniad ein penderfyniadau. Hyrwyddwr Ymgynghori Ofcom fydd y prif unigolyn y dylid cysylltu ag ef os oes gennych farn am y modd rydym yn cynnal ein hymgynghoriadau.

A3.6 Os na fyddwn yn gallu dilyn unrhyw un o'r saith egwyddor hyn, byddwn yn egluro pam.

## Ar ôl yr ymgynghoriad

A3.7 Credwn ei bod yn bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau pobl eraill. Felly, fel rheol, byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion bob hyn a hyn yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben. Ar ôl yr ymgynghoriad, byddwn yn gwneud ein penderfyniadau ac yn cyhoeddi datganiad sy'n egluro beth fyddwn ni'n ei wneud, a pham, gan ddangos sut mae safbwyntiau ymatebwyr wedi helpu i siapio'r penderfyniadau hyn.

# A4 Dalen gyflwyno'r ymgynghoriad

## Manylion sylfaenol

Teitl yr ymgynghoriad:

At (swyddog cyswllt yn Ofcom):

Enw'r ymatebydd:

Yn cynrychioli (eich hun neu sefydliad(au)):

Cyfeiriad (os na ddaeth i law drwy e-bost):

## Cyfrinachedd

Ticiwch isod i ddangos pa ran o'ch ymateb rydych yn ei hystyried yn gyfrinachol, a rhowch eich rhesymau am hynny

- Dim ☐
- Enw/manylion cyswllt/teitl swydd ☐
- Ymateb cyfan ☐
- Sefydliad ☐
- Rhan o'r ymateb ☐

Os ydych chi wedi dewis 'Rhan o'r ymateb', nodwch pa rannau:

--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

-------------------------------------------------------------------------------------------------------------

Os ydych am i ran o'ch ymateb, eich enw neu eich sefydliad beidio â chael eu cyhoeddi, ydych chi'n fodlon i Ofcom gyhoeddi cyfeiriad at gynnwys eich ymateb (gan gynnwys, yn achos unrhyw rannau cyfrinachol, grynodeb cyffredinol na fydd yn datgelu'r wybodaeth benodol nac yn datgelu pwy ydych chi)?

Ydw ☐ Nac ydw ☐

## Datganiad

Rwyf yn cadarnhau bod yr ohebiaeth sydd wedi'i rhoi gyda'r ddalen gyflwyno hon yn ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad y gall Ofcom ei gyhoeddi. Fodd bynnag, wrth ddarparu'r ymateb hwn, rwyf yn deall ei bod yn bosibl y bydd angen i Ofcom gyhoeddi'r holl ymatebion, gan gynnwys y rheini sydd wedi'u nodi'n gyfrinachol, er mwyn cyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol. Os wyf wedi anfon fy ymateb drwy neges e-bost, gall Ofcom ddiystyru unrhyw destun e-bost safonol ynglŷn â pheidio â datgelu cynnwys ac atodiadau'r neges e-bost.

Mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi ymatebion yn rheolaidd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben. Os yw'ch ymateb yn un nad yw'n gyfrinachol (yn gyfan gwbl neu'n rhannol), ac y

byddai’n well gennych i ni beidio â chyhoeddi’ch ymateb nes bydd yr ymgynghoriad wedi dod i ben, ticiwch yma.

Enw        Llofnod (os darperir copi caled)

# A5 Cwestiynau'r ymgynghoriad

A5.1 Mae tri chwestiwn rydym yn ymgynghori yn eu cylch:

**Cwestiwn 1 yr Ymgynghoriad:**

A oes gennych unrhyw sylwadau ar gynnig Ofcom i wneud newidiadau i'r amod trwydded 'gwasanaethau cynnwys trydydd parti' i nodi nad oes angen dangos rhybudd os yw'r gwasanaeth teledu trydydd parti sy'n cael ei ddefnyddio yn dal trwydded ddarlledu a gyhoeddwyd gan Ofcom?

**Cwestiwn 2 yr Ymgynghoriad:**

Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar gynnig Ofcom i wneud newidiadau i ychwanegu amodau 22A a 22B at bob trwydded Gwasanaethau Ychwanegol Teledu Digidol?

**Cwestiwn 3 yr Ymgynghoriad:**

Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar gynnig Ofcom i wneud newidiadau i amod 'force majeure' y drwydded?

Dim ond crynodeb byr a syml sydd yn y trosolwg hwn o'r ddogfen. Mae'r cynigion rydym yn ymgynghori yn eu cylch a'n rhesymeg ni wedi'u nodi yn y ddogfen lawn.